**ATODIAD 6**

**TRETH CYNGOR**

1. Mae'n benderfyniad allweddol i aelodau'r Cyngor Llawn ei wneud, yn sgil yr ystyriaethau cyflwynir yma, i sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2023/24. Yr allwedd i hyn yw cael y balans yn briodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd treth sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.

2. Yn y tybiaethau hanesyddol a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 3.5%, fel amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r lefel bu'n rhaid ei godi yn amrywio'n flynyddol, a hynny i raddau helaeth i adlewyrchu'r bwlch oedd yn bodoli yn sgil setliad grant Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, yn 2019/20 bu'n rhaid cynyddu'r dreth 5.8%, o 3.9% yn 2020/21, o 3.7% yn 2021/22 ac o 2.95% yn 2022/23.

3. Eleni, erbyn 2023/24 argymhellir codi'r dreth 4.95%. Byddai hynny'n cynhyrchu £90m o dreth (o'i gymharu â £82.1m yn 2022/23), sy'n cynnwys £9m o gynnyrch Premiwm. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £75.59 i eiddo mewn Band D, neu £1.45 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 5.14% ar gyfer 2023/24) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.

4. Mae dros 8,300 o dai sy'n atebol i dalu treth yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor, ac mae dros 60% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D. Byddai pob 1% ychwanegol o dreth yn addasu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £857,905. Felly, byddai 3.5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol tua £3,002,668 tra byddai 5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol o tua £4,289,525.

5. Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd, a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru, ers 2016/17:

| Blwyddyn | Cyngor Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|
| 2022/23 | 2.95% | 2.2% |
| 2021/22 | 3.7% | 3.6% |
| 2020/21 | 3.9% | 4.6% |
| 2019/20 | 5.8% | 6.2% |
| 2018/19 | 4.8% | 4.9% |
| 2017/18 | 2.8% | 3.0% |
| 2016/17 | 4.0% | 3.6% |

Yn 2022/23 roedd lefel Treth Cyngor Band D Cyngor Gwynedd yn £1,527 tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,433.

Ceir mwy o fanylion yn ddogfen yma (sydd ar gael yn Saesneg yn unig): Council Tax Levels in Wales, 2022-23 (llyw.cymru)

6. Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru yn 2023/24, ond yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yw bydd amrediad eithaf eang ar draws Cymru. Mae'r cynnig gerbron i godi'r dreth 4.95% yn gyson â'r sefyllfa ar draws y gogledd.

7. Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol. Fodd bynnag, ymhellach i sawl sgwrs anffurfiol mewn fforymau aelodau, **argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 4.95%, fyddai'n gynnydd wythnosol o £1.45 neu £75.59 yn flynyddol, gyda threth Band D o £1,602.58 am 2023/24.**

**CYNNYRCH PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI**

8. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 1 Rhagfyr 2022, penderfynwyd parhau gyda'r premiwm o 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy am 2023/24 ond i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 150%. Amcangyfrifir bydd y Cyngor yn derbyn £9m o incwm ychwanegol yn 2023/24 trwy godi'r premiwm, a bwriedir neilltuo £6m o'r arian mewn cronfa er mwyn gweithredu'r Cynllun Gweithredu Tai, fydd yn anelu i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ein cymunedau, a £3m i'r gyllideb digartrefedd.

9. Rhaid ymgorffori'r holl incwm a cyfarch gwariant perthnasol yng nghyllideb 2023/24.